

Atodiad:

Tynnu sylw at faterion yn ymwneud â gwasanaethau a gofnodwyd gan aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Mae trafodaethau wedi dechrau gyda'r Uwch Dîm Rheoli ar adferiad ac maent yn awyddus i ymgysylltu â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer dull cydgysylltiedig ar draws partneriaid. Mae materion yn cynnwys

- Mae cartrefu'r rhai sy'n cysgu ar strydoedd yn heriol drwy'r cyfyngiadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru -
- Diogelu ysgolion
- Cydweithio i gefnogi'r economi leol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

- Mae profi, olrhain, diogelu yn dod yn ei flaen nawr
- Yn raddol ddychwelyd i'r gwasanaeth arferol, ailgor gwasanaethau fesul un lle gellir eu gwneud yn ddiogel. Canfuwyd bod dychwelyd gwasanaethau'n llawer anoddach na'r disgwyl oherwydd rhyngddibyniaeth gwasanaethau.

Heddlu De Cymru

- Mae plismona wedi parhau fel busnes fel arfer gydag effaith ychwanegol Covid-19
- Bydd angen i bartneriaid gydweithio i fynd i'r afael ag effaith llacio'r cyfyngiadau ar faterion fel economi'r nos, trais domestig, troseddau casineb.

Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO)

- Ailgyfansoddwyd y gwasanaeth i ymateb i ofynion Covid-19 ac roedd yn elwa o'r rhaglen drawsnewid ar gyfer cymunedau cynaliadwy sydd eisoes ar waith drwy ddefnyddio'r llywyr cymunedol ar draws yr ardal i gydgysylltu gweithgarwch.
- Mae rhai grwpiau trydydd sector wedi cau ond sefydlwyd llawer mwy o grwpiau cyd-gymorth ochr yn ochr â grwpiau mwy eraill sydd wedi parhau
- Cofrestrodd 1500 o wirfoddolwyr a gosododd BAVO 350 a oedd yn ymwneud â darparu bwyd, casglu presgripsiynau, ymweliadau cysgodi.
- Mae'n ansicr a fyddwn yn gallu cadw'r gwirfoddolwyr hynny, neu a fydd llawer yn dychwelyd i'r gwaith
- Gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gynllun ailgychwyn ac adfer
- Ceisio ailgyfeirio gwirfoddoli i grwpiau cymunedol lleol i'w rhoi ar waith eto

Coleg Pen-y-bont ar Ogwr

- Bu'r coleg ar gau drwy gydol yr amser ond maent yn ailagor ar gyfer grwpiau bach o ddysgwyr
- Er y bydd Safon Uwch a TGAU wedi cyfrifo graddau, ni all dysgu galwedigaethol gael hyn. Mae cyrff dyfarnu yn araf yn ymateb gyda chanllawiau ar sut y gall lefelau 1 a 2 gael eu cymwysterau i gael eu trwydded i ddechrau gweithio. Mae pryder bod hyn yn effeithio'n benodol ar fyfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig.
- Mae'r Coleg wedi darparu gliniaduron i ddysgwyr yr oedd eu hangen arnynt ac wedi bod yn cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed a'r rhai sy'n cysgodi.

- Mae'r Coleg wedi gweithio gyda'r bwrdd iechyd, gyda rhai staff yn mynd yn ôl i fod yn weithwyr allweddol, gan ddarparu PPE a helpu Gwasanaeth Gwaed Cymru.
- Mater i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol yw gweld sut y gall ein sefydliadau gyfrannu at gynnal gostyngiad CO2 yn y dyfodol.
- Mae Coleg Pen-y-bont ar Ogwr ar gael i helpu sefydliadau eraill gydag adferiad.

Cyfoeth Naturiol Cymru

- Mae swyddogion wedi sylwi ar newid yn y defnydd o fannau gwyrdd. Gallwn fanteisio ar hyn fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac fel trefnwyr partner a chyflogwyr mewn meysydd fel teithio llesol i'r gwaith
- Mae swyddfeydd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u cau ac mae'r staff i gyd yn gweithio o gartref yn dda. Mae ansicrwydd ynghylch a fydd pob swyddfa'n ailagor os bydd gweithio o gartref yn cynyddu.
- Mae'r datganiad ardal yn cynnwys amcanion e.e. ynghylch mannau gwyrdd a all lywio adferiad.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu agor yr ystâd e.e. meysydd parcio

Busnes mewn Ffocws

- Yr oedd y gwasanaeth yn gallu cynnal cymorth i entrepreneuriaid ifanc
- Gwelwyd panig gan fusnesau yn yr ychydig wythnosau cyntaf, ond roedd y gwasanaeth yn cefnogi busnesau i newid a rhoi cymorth gyda ffyrlo a cheisiadau eraill
- Cynhaliwyd gwasanaethau busnes Llywodraeth Cymru
- Mae cwestiwn ynghylch a fydd busnesau, pan ddaw'r ffyrlo i ben, yn gallu aildechrau - mae disgwyl busnesau mwy gofidus
- Gwnaed cais am esemptiad ardrethi busnesau bach ar gyfer 400 a mwy o fusnesau mewn adeiladau Busnes mewn Ffocws a oedd yn gymorth da.
- Mae'r gwasanaeth wedi cael ymgysylltu a gweithgarwch cadarnhaol gyda llawer o fusnesau sy'n gallu cyfrannu at asesiad effaith.

Gwasanaeth Prawf

- Mae'r gwasanaeth wedi newid yn llwyr gan ddefnyddio galwadau fideo, cyfweiliadau dros y ffôn a stepen drws.
- Roedd yn gymorth mawr gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i sicrhau nad oedd unrhyw gleientiaid yn ddigartref.
- Mae'r gwasanaeth wedi archwilio trais domestig am risg uchel ac uchel iawn gan nad oes modd mynd i gartrefi.
- Mae problem enfawr gydag iechyd meddwl menywod sy'n droseddwyr, gyda rhai hunanladdiadau.
- Mae'r gwasanaeth yn gweithio ar y cyd â'r carchar ar gyfer pan fydd y llysoedd yn agor
- Bydd cynnydd o ran stepen drws ac wyneb yn wyneb lle y bo'n bosibl ond bydd angen osgoi trafniadaeth gyhoeddus ac asesu swyddfeydd lle y bo'n bosibl.
- Mae darparu ffonau i droseddwyr a dioddefwyr benywaidd sy'n agored i niwed wedi helpu i gadw cysylltiad
- Mae gan bob troseddwr gynllun risg newydd
- Erbyn mis Mehefin 2021, bydd gwaith di-dâl yn dychwelyd i'r gwasanaeth prawf felly mae angen edrych ar sut i wneud hyn o fewn y cyfyngiadau

- Mae disgwyl cynnydd mawr mewn achosion a llysoedd pan fyddant yn ailagor i ddelio ag ôl-groniad, gan roi goramser i staff
- Mae Covid 19 wedi helpu i ddangos sut y gellir datrys rhai pethau sydd wedi cymryd blynyddoedd i'w datrys yn eithaf cyflym drwy gydweithio a meddwl y tu allan i'r blwch.

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

- Llwyddodd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru i gynnal lefelau staffio da felly maent wedi cadw ymateb gweithredol ledled de Cymru.
- darparwyd addysg, atal ac amddiffyn i'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymunedau sy'n cynnwys dioddefwyr Trais Domestig.
- Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi bod wrth law i gynorthwyo Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru a'n byrddau iechyd,
- Mae stociau PPE ar lefelau cynlluniedig

Adran Gwaith a Phensiynau

- Mae'r llwyth achosion hyd at ddwywaith y lefelau arferol
- Mae amodau cymorth wedi'u dileu fel y gall pawb hawlio a bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cynyddu cymhwysedd ymhellach.
- Nid oes swyddi gwag yn dod drwodd felly ni all hawlwyf symud yn ôl i'r farchnad lafur ond maent wedi gallu gweithio gyda rhai hawlwyf i baratoi ar gyfer gwaith.
- Mae canolfannau gwaith wedi aros ar agor ac wedi bod ar agor i bobl sy'n ddigartref neu'n profi trais yn y cartref
- Mae mwy o safleoedd yn ailagor pan ellir eu gwneud yn ddiogel ond mae staff hefyd yn parhau i weithio o gartref
- Pan ddaw ffyrlo i ben, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn disgwyl cynnydd sydyn mewn hawliadau wrth i staff gael eu diswyddo.